**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

18 Chwefror 2025

**Cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg**

Annwyl Lynne,

Cyn bo hir byddwn yn dechrau ar ymchwiliad a fydd yn edrych ar recriwtio a chadw athrawon. Roedd materion yn ymwneud â'r gweithlu yn amlwg iawn yn ein gwaith craffu ar Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Rydym hefyd yn ymwybodol o sylwadau diweddar y Prif Arolygydd yn y rhagair i adroddiad blynyddol Estyn am y cysylltiadau rhwng recriwtio ac ansawdd addysgu a dysgu.

Er mwyn llywio cwmpas ein hymchwiliad, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cael rhagor o wybodaeth am y gwaith yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg. Yn benodol, yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r cynllun cyntaf a gyda phwy rydych yn gweithio i'w ddatblygu.

Byddai'n ddefnyddiol cael y wybodaeth hon erbyn 14 Mawrth 2025.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.